

Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac yn hyn o beth dylid eu hystyried fel cyfanwaith. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn darparu'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent wedi eu seilio ar y gydnabyddiaeth y caiff gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol ei gyfoethogi o dderbyn mynediad i'r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.

- 1** Mae pob plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae'n un greddfól. Mae chwarae'n angenrhaid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad iach a lles unigolyn a chymunedau.
- 2** Mae chwarae yn broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Hynny yw, y plant a'r bobl ifanc fydd yn penderfynnu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, trwy ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
- 3** Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg.
- 4** I weithwyr chwarae, y broses chwarae fydd flaenaf a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae pan yn ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion.



- 5** Rôl y gweithwyr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod ble y gallant chwarae.
- 6** Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol.
- 7** Mae gweithwyr chwarae'n cydnabod eu effaith eu hunain ar y gofod chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithwyr chwarae.
- 8** Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg â'r budd datblygiadol a lles plant.

Nid yw hawlfraint yr Egwyddorion Gwaith Chwarae'n perthyn i Chwarae Cymru. Caiff eu hawlfraint ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y proffesiwn gwaith chwarae gan Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Dylid tadogi unrhyw gyfeiriad, yn ysgrifenedig neu fel arall, at Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, Caerdydd 2005.